




Yng Nghwm Idwal 13 Ebrill 2013 roedd yna rew trchus yn hongian oddi ar glowyni Cwm Idwal. Clywsom ffwydriad mawr - a daeth talpiau anferthol o rew i lawr. Lle peryglus gan bod y rhew yn dechrau dadmer. Tormaen coch yn dechrau blodeuo yma ac acw. **Gwyn Williams**



Lluwchfeydd eira ger Moel Fodiar, Mawrth 26, 2013 Llundun: Alun Williams

TEILO, tua hanner cyntaf yr hen ganrif

Dyma'r cyntaf o gyfres o bigion o draethawd "Hen Ddwyllo" dan y teitl **Arferion a Chwaraeon ardal y Parc erystalwm**. Fe'u hysgrifennwyd yng nghanol yr 1960au gan gystadleuydd yn un o Eisteddfodau cylch y Parc, Y Bala yn dwyn atgofion o hen ffyrdd gwledig yr ardal.

Pan ddoir flwyddyn newydd i mewn byddai galwadau yn amrywio ar y tir. Os ceid dipyn o dywydd sych neu rew byddai yn rhaid ymorol am deilo, gair llafar gwlad am gario tail buarth allan i'r caeau. Y dull fyddai defnyddio'r drol, llwytho'r tail yn y buarth gyda fforch a dwyn y llwyth i'r caeau fyddai yn debyg o gael eu hel yn wair y tymor hwnnw. Gwaith digon caled i wagner fyddai hwn. Codi gyda fforch o ddeg i bymtheg tunnelli o dail gwartheg trwm mewn diwrnod, ei ddwyn allan i'r cae ac yna tynnu'r tincar a chodi y drol dwll neu ddau ar y fran ac yna tynnu y llwyth gyda caff yn dyrrau man, rhyw ddeg cam rhwng pob twr yn rhesi union ar hyd y cae. Wedyn, rhes arall wrth ei hochr, rhyw ddeg cam eto cydrhwng, a chario ymlaen a'r patrwm nes byddai'r cae i gyd yn dyrrau man. Wedi iddynt fod felly am ychydig i sychu dipyn, yna byddai yn rhaid cymryd y fforch drachefn a chwalu pob twr yn rheolaidd ac mor wastad ac yr oedd modd ar wyneb y cae. Cymryd y ceffyl wedyn i gwblhau'r gwaith drwy lusgo ôg arbennig i ridyllio'r cyfan mor fân ac oedd modd er mwyn i'r glaw olchi'r gwrtaith i'r ddaear. Fel y deuai Chwefror i mewn, byddai galw am fraenaru, sef troi y sofflydd, caeau oedd wedi codi cnwd o yd, ceirch neu haidd y tymor blaenorol. Amcan hyn fyddai ceisio manteisio ar y rhew i ladd chwyn fyddai eisioes [sic] yn y pridd, er mwyn cael tir mor lân ag y bo modd i'w hadu â had gwair yn y cnwd oedd yn dyfod.

Traethawd Eisteddfod "Hen Ddwyllo" tua 1966

Tybir mai O.T Jones, Llwynmafon oedd "Hen Ddwyllo". A dyma ddywedodd Brenda Jones sydd wedi gwneud gwaith trylwyr iawn ar holl ddyddiaduron William Jones, Moelfre, Aberdaron. Mae'r ymrdiniaeth hon yn cynnwys pob math ar wrtaith, nid tail gwartheg yn unig:

Teilo: Yn ystod yr hanner cyntaf o'r flwyddyn oedd y rhan helaeth o'r teilo yn cymeryd lle – byddai yn "teilo", "teilo i (neu at) datws", "teilo i rwdins" a "teilo i fangolds". Teilo i datws sydd yn cael ei grybwyll o lonawr i Ebrill, i fangolds yn Ebrill a Mai, ac i rwdins fis Mai a Mehefin; dyma'r drefn planwyd y cnydau. Tybiwn mai teilo porfa ydoedd pan nad oedd yn enwi'r cnwd bwriedid ei dyfu yn y cae. Ni fyddai tywydd rhewllyd yn ei atal rhag teilo. Byddai'n teilo drachefn wedi iddo glirio'r cnydau o'r caeau yn ystod yr Hydref. Yn 1887, mae'n nodi ei fod wedi teilo lludw yn Cae Main, chwalu lludw yn y weirglodd yn Awst 1890; gwair oedd y cnwd yn y caeau hyn ar y pryd. Heuodd 5 cant o halen yn Cae'r afon fis Mai 1884 cyn tyfu ceirch ynddo [Beth oedd pwrpas hyn tybed? Gol.]. Yn Chwefror 1885 mae'r cofnod cyntaf am hau llwch, a hynny yn y Cae Bach. Nid oes sôn am llwch wedyn tan 1896, pan brynodd saith bag o llwch gan Thomas Williams am £2-12-6, wedyn yn hau chwe chant ohonno gyda'r ceirch yng Nghae Gwlyb. Mae'n dilyn yr un patrwm tan 1899 pan brynodd bedwar bag, 18 cant, hanner tunnelli a thunnelli oddiwrth Thomas Hughes, Thomas Williams a Thomas Jones. Mae'n debyg ei fod wedi medru storio rhan helaeth o'r llwch gan nad oes cofnod iddo brynu mwy nes iddo brynu dau fag yn 1901, a dau arall yn 1902. Ar 24 Awst 1903 prynodd wyth bag o llwch ac un bag o superphosphate o Aberdaron, a thunnelli o llwch gan John Ty Isa am £2.5.0.

Mwy o dyrchod eleni?



“Crogfa” twrch daear, Aberdaron Mawrth 2013
Llythyr i Galwad Cynnar 23 Mawrth 2013:
“...A ydy'r tyrchod daear yn brysurach nac arfer eleni? Rwyf wedi clywed sawl un yn cwyno'n yr ardal yma [Talybont, Ceredigion] amdanynt yn tyrchu yn eu gerddi ac ar eu lawntydd. Oes sail i hyn tybed? Daeth y darn yma i gof. Mae ar fesur englyn ond

cymysgedd Saesneg/Cymraeg. Mae mewn hen gasgliad wedi'i torri allan o bapurau newydd ayb. Does dim awgrym o bwy a'i lluniodd ond y dyddiad oedd 1928.

“The mole, anodd ei ‘mela - in a field,
Stretcheth for its rhodfa;
A keen d....l can difa,
Tyrr ein tir winter and ha’“

Llythyr John Evans

Ffeiriad du *Timarcha tenebricosa*



Roedd y chwilen yma'n mwynhau yr ychydig heulwen a gafwyd un prynhawn yn Mynytho.

Llun a sylw: Netta Pritchard

Chwilen offeiriad du ydio, sef y *bloody nose beetle*. Mae'n enwog am waedu “gwaed” coch wrth ei gyffwrdd. DB

Mae hen rigwm o'r de yn ein atgoffa o arferiad y chwilen hon i “waedu” wrth ei

chyffwrdd:
‘Ffeiriad du, poera wa’d
Neu mi ladda'i dy fam a'th tad

Dim ond teulu'r briwydd y mae larfa'r 'ffeiriad du yn ei fwyta. O un aelodau y teulu hwn, sef y cochwraidd gwyllt, y deuai'r lliw coch i lifo dillad. Cysylltiad? Mond gofyn...



Pigion o'r Papura Bro: Fferi Talycafn a'i raff



Ar un cyfnod cymerodd yr Iarl I Lonsdale, enw adnabyddus ym myd bocsio, ofal o'r fferi a digwyddodd damwain ddifrifol i un o'i weision pan yn croesi. Roedd rhaff wedi ei gosod ar draws yr afon er mwyn cario 'windlass' ar yr ysgraff. Daeth cwch mawr o gyfeiriad Conwy, cyffwrdd â'r rhaff a dragio'r cychwr i'r dŵr ac fe'i lladdwyd. Derbyniodd gweddwr'r cychwr gini o iawndal gan yr Iarl a thraddododd Ficer Conwy bregeth i goffau amdano.

Y Pentan Ebrill 2013 (gyda chaniatad)

Mae Stan yn cyfeirio at *windlass*, sef, yn ôl yr OED:

A mechanical contrivance working on the principle of the wheel and axle, on a horizontal axis (thus distinguished from a capstan); consisting of a roller or beam, resting on supports, round which a rope or chain is wound; used for various purposes, esp. on board ship for weighing the anchor or hauling upon a purchase, at the head of a mine-shaft for hoisting coal or other mineral, or for raising a bucket from a well.

A dyma dderbyn felly esboniad o'r cofnod canlynol (print trwm) gan Y Parch. Hugh Davies yn nodi mewn llythyr i'w gyfaill Thomas Pennant am y trafferthion a gafodd ar y 3 Rhagfyr 1794 wrth ddychwelyd o Sir y Fflint i'w gartref yn Abergwyngregyn ar noson stormus

I do not delay to let you know that I have survived the dresfing? [sic] [drenching?] I underwent on "Wednesday [3ydd Rhagfyr] by the continual rain. My hand is blistered in holding the bridle; the current of water at Talycafn was really frightful, and no line to conduct us across the river as usual! A tremendous gale of wind which continued about eight and forty hours and came on the next day after I came to Downing, has caused great losses in this neighbourhood, and in some part [sic] of Anglesea [sic]; many ricks of hay have been entirely swept away; fruit & other trees torn up; houses unroofed? i thank God by the activity of my servants and neighbours my little stack of hay was with difficulty saved.

Catalog archif cr2017/tp20/1 (Warwick Record Office 1983) Hugh Davies, Aber Dec 5th 1794

Dirgelwch y bachyn arian

Newydd ddal gwyfyn y bachyn arian (*silver hook*) yn y cae dros y ffordd heddiw 17 Mehefin 2011. Dwi'n cofio gweld un yn yr ardd yn ôl tua 1994 (cyn i mi ddysgu llawer wyfynod). Fum yn dechrau amau fy nghof gan na welais un arall wedyn – tan heddiw!

Llun: Duncan Brown



Lluwch Mawrth

Fel un sydd yn cadw rhyw fras gofnodion or tywydd, hoffwn eich cyfeirio at y flwyddyn 1979, Debyg i eleni roedd y gaeaf honno yn eitha milain ac arhosodd yn oer hyd diwedd Mis Mai. Gan fy mod yn medru gweld mynyddoedd y Caerneddau o fy nghartre, os yw fy nghof yn iawn bu eira ar ei copa hyd diwedd Mai y flwyddyn honno.

Goronwy Davies, Abergele.

Bu Les Larsen yn cofnodi esgryn eira ar y Carneddau hefyd, ond o'r ochr arall, ac ar y 17 o Fehefin y cofnododd yntau yr eira olaf yno. Cofnodais innau (DB) glytyn o eira wrth Rhaeadr Fach Abergwyngregyn ar y 27 Ebrill y flwyddyn honno. Ac yn niffaethwch y Sahara, yn Algeria, disgynnodd yr eira cyntaf mewn cof ar lefel isel ar ôl storm a barhaodd hanner awr (mae'r mynyddoedd yno yn cael eira yn fwy rheolaidd)

...a sglein hefyd



Roedd Moel Eilio yn sglein i gyd ddiwedd mis Mawrth a dechrau mis Ebrill 2013 dan amodau tywydd arbennig iawn.

Llun: Duncan Brown

An exceptional snowfall 22-23 March 2012 Blizzards. The snow that fell was dense "wet snow" (snow with a high water content). This type of snow falls at temperatures close to 0C, the snow flakes melt at the edges & clump together forming dense heavy snow. On the hills this snow was built up into deep solid packed drifts by winds of up to 80mph. When the snow stopped temps fell well below zero, freezing the snow field surfaces with a hard snow-ice surface, shining in the low angled sun of early morning, turning our Eryri Hills into a rare Alpine scene. Because the wet snow was so dense, the drifts were hard compacted snow from top to bottom, unlike powder snow (also known as "dry snow" because of its low water content) which freezes only on the surface, leaving soft uncompacted snow underneath..it is powder snow that freezes on the surface that is more liable to avalanche, although wet snow will also avalanche if there is a sudden thaw in the hills.

It was the wet snow of 22-23 March blizzard that caused so many fatalities to upland sheep across N Wales, Cumbria, & the I.O.M. Upland sheep walk into the wind to seek shelter, they end up under the lee of a wall or rock. The wet snow drifts over them (yes, gale force upland winds will move such heavy dense snow), buries them, and because its so dense it compacts around them, preventing them moving to create an air space to breathe. Death comes quickly, and the farmer has little, or no chance, to save his flock.

When dry snow falls the sheep have more chance of survival, the snow is full of air, the sheep can move under the drift more easily to create an air space to breathe, & if the farmer gets to them in time he can dig them out & save them.

Such damaging hill blizzards with wet snow are thankfully rare, but are more likely to occur at the end of winter when temperatures are rising. Unfortunately, this is the time too when hill sheep have been moved above the fridd. In mid winter, low temperatures are more likely to result in powder snow.

It was also the sheer amount of snow that fell in the 22-23 March blizzard that caused so much damage. Here in Waunfawr where we escaped the snow (we were fractionally to the south of the warm front that was the line between the heavy snow to the north & the heavy rain

to the south) there was 65mm (2.6in) rain over the 28 hours of continuous rain.

So, up on the hills, & on the low ground to the north of the warm front (which was almost stationary for 24 hours, which was why so much precipitation occurred) there would have been at least 65cm snow (over two & a half feet of LEVEL snow, a truly exceptional amount, which in places was drifted by the gale to storm force winds into drifts of 6 feet and more..some reports of 12 to 17 foot drifts were reported from Denbighshire, Arran & the Isle of Man.

Huw Holland Jones (Waunfawr)

A dyma ymateb Dafydd Whiteside Thomas (Llanrug) i sylw Huw: Fe geisiais fynd i fyny'r ffordd o Groeslon Waun yn ystod yr eira. Roedd y ffordd mwy neu lai yn glir nes cyrraedd tua hanner ffordd rhwng giat y goedwig a'r domen lechi gyntaf. Yn y fan honno, roedd wal o eira ar draws y ffordd. Bu'n rhaid rifyrsio yn ôl! Mawrth 19 oedd y tro olaf i mi redeg i fyny'r Foel. Roedd eira ar y copa, ond er ei fod wedi rhewi ar yr wyneb, roedd fy mhwsau yn ddigon i dorri trwodd, ac yr oedd yn gyfforddus iawn rhedeg drosto - yn enwedig wrth ddod i lawr. Stori go wahanol oedd hi wedyn pan rewodd yr eira gwlyb yn solet a rhoi'r wyneb sgleiniog iddo. Bum i fyny eto ddoe [13 Ebrill] - a'r ddaear wedi dechrau meddalu. Braff iawn unwaith eto i'w redeg, cyn belled ag yr oedd yn bosibl osgoi'r hancesi llydan o eira oedd yn dal i aros.

Madfall yn herio rhewynt Mawrth



Madfall gyffredin yn torheulo ar draeth Ynysgain, Cricieth, 29ain Mawrth 2013. Tua SH486375. Y cr'adur wedi ei ddeno o'i drwmwsg gaeaf gan yr haul, ond roedd y gwynt oer yn ei gwneud hi'n anodd iddo gynhesu mae'n siwr gen' i, ac yn cadw'r pryfaid o'r golwg hefyd. Doedd fawr o hast ganddo i ruthro oddi wrthom ni, ac mi fuodd o cystal ag aros i mi ystyn y camera i dynnu lluniau. Roedd ei fol melyn a smotiau duon yn awgrymu mae gwr'w oedd o. Bydd y rhai beinw'n gallach ac yn aros iddi g'nesu 'chydig eto cyn dod allan i fagu. Erbyn hynny bydd hwn wedi magu rhywfaint o gig am ei ganol i fedru denu cymar. Yn y rhostiroedd uchel dwi'n weld y rhain fwyfa', ond roedd yn wych fod y genod wedi cael gwyllo hwn.

Llun a stori: Paul Williams

Da gweld [rhywbeth](#) yn deffro yn y rhewynt ddiawl yma! Tybed ydi'r "wind-chill" bondigrybyyll yn effeithio ar greaduriaid oer eu gwaed? DB

Os am fwy o blogyn Asgwrn y Graig ewch i

<http://arasgwrnygrraig.blogspot.co.uk/2013/03/crwydro-ynysgain.html>

Hwyaden 'Myscofi'... MWY

- un o'r ychydig greaduriaid i gael eu dofi yn America, wrth gwrs.

Gwyn Jones

Dal brwyniaid ar y Gonwy



Ar yr olwg gyntaf mae'n anodd gweld cysylltiad rhwng brwyniad (*smelt* neu *sparling*, pysgodyn a geir yn afon Conwy), â'r santes o Iwerddon. Ond yn ôl y chwedl mae yna berthynas rhwng y Santes Ffraid - (Santes Bride neu Bridget) yn Saesneg â physgod afon Conwy. Mae Afon Conwy, ers canrifoedd lawer, wedi cael ei chysylltu â'r pysgodyn yma. Yn un o'l lythrau mae Lewis Morris - un o Forrisiaid Môn - yn cyfeirio at chwedl sy'n sôn am Santes Ffraid. Yn ôl y stori fe grewyd y Santes o frwyniaid afon Conwy ac fe sefydlwyd eglwys ar lan yr afon, eglwys roddodd ei henw i bentref a adnabyddir heddiw fel Llansantffraid Glan Conwy. Chwefror laf yw diwrnod arbennig Santes Ffraid gan mai dyma'r dyddiad, yn ôl y Parch. Robert Williams, yn ei lyfr "History of Aberconwy" y bydd y pysgod yn cyrraedd afon Conwy. Ym mis Mawrth byddant yn grawnu (*spawn*) yn yr afon, ond byr yw eu arhosiad - ychydig wythnosau yn unig. Maent yn amrywio - o ran maint ond anaml y ceir rhai mwy na throedfedd o hyd ac yn pwysu tua hanner pwys. Mae'r pen yn dryloyw a'r croen mor denau fel, o dan y microscop, gellir gweld y gwaed yn cylchredeg. Ei arogl yw ei brif nodwedd gan ei fod yn arogl yn debyg i frwyn a dyna sy'n egluro'r enw Cymraeg - brwyniad. Ystyrir y blas yn ddanteith-fwyd, 'caviare' y Cymro, ac arferai'r hen bysgotwyr gyflwyno rhai o'r pysgod i uchelwyr yr ardal ar gyfer paratoi pryd bythgofiadwy. Pan oedd Lewis Morris yn casglu gwybodaeth am hanes Dyffryn Conwy ar gyfer "Celtic Remains", llawysgrif sy'n dal heb ei phrintio yn y Llyfrgell Genedlaethol fe gysylltodd â Dafydd Jones o Drefriw. Pwrpas y llythyr oedd gofyn i'r gŵr o Drefriw am hanes y brwyniad. Gwnaed ymholiadau ymysg pysgotwyr lleol a chynigiodd un ohonynt, Hywel Gwaedwr o Drefriw blatiad o frwyniaid iddo i'w hanfon i Lewis Morris. Anfonwyd y pysgod i Gaergybi ond yn anffodus, erbyn iddynt gyrraedd pen eu taith roedden nhw wedi drewi! Fu Lewis Morris fawr o dro yn gadael i Dafydd Jones wybod mai gwybodaeth am y pysgod oedd arno eisiau ac nid pryd o fwyd!

Stori ryfedd, ar lawer ystyr, yw'r un am greu Santes allan o bysgodyn. Mae yna nifer o eglwysi yn dwyn yr enw St Bride hyd a lled Cymru a Lloegr ond hyd y gwyddom 'does dim chwedl arall debyg i'r un sy'n cysylltu Llansantffraid ag afon Conwy. Yn hanesion a thraddodiadau yr 'Hen Ffydd', sef Eglwys Rufain, mae digon o arwyddion ac addurniadau yn cysylltu Cristnogaeth gynnar a physgod. Mae'r Testament Newydd, Llyfr yr Actau'n arbennig, yn cyfeirio at bysgod yn rhai o'r gwyर्थiau ond does dim byd tebyg i'r chwedl am yr wyrth o greu y Santes Ffraid allan o frwyniad.

Stan Wicklen (o bapur bro Y Pentan, gyda chaniatad y golygydd)

Gwalchwyfyn y Benglog yn 1973?

Dyma baentiad o Walchwyfyn y Benglog mewn dyfrlliw a phensil, o arddangosfa o luniau Elsie Eldridge, Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog, Pwllheli, Ebrill 2013. Dyddiad y llun oedd 1973, blwyddn casglu'r pryf tybed?

Gyda chaniatad caredig Ymddiriedolaeth Plas Glyn y Weddw (2 Ebrill 2013)

Nid yw'r gwyfyn trawiadol hwn yn gyffredin o gwbl yn Nghymru (na Phrydain yn gyffredinol), ac mewn rhai blynyddoedd yn unig y'i gwelir. Dyma rai o'r blynyddoedd eraill y'i cofnodwyd yn ôl casgliad Llên Natur: 14 Awst 1825: *two very large caterpillars which a man found amongst the Potatoes in his garden* (John Clare, Northampton)

Mai 1954: *One was found at Dr. Williams' School, Dolgelly, in early May 1954* (Field Notes, Nature in Wales 1i)

1976: *I'll never forget finding a larva of Deathshead hawkmoth in the hot summer of 1976 in the cottage garden at Tregarth. Scared the living daylight out of me 'cause I thought it was a snake at first...the mimicry was perfect...and I have a phobia of snakes.* (Huw Holland Jones).

Cefais innau ddau chwiler hefyd y flwyddyn honno yn Nyffryn Ardudwy wedi eu codi o wely tatws (Gol.).

Medi 1984: A hithau wedi bod mor eithriadol o braf yn 1984 gwalchwyfyn y benglog yn ymddangos o'r mor. Swm outboard motor. Glaniodd ar y cwch. Dechrau gwichian wrth lfor Griffiths fynd ato [mae nhw'n gwichian fel llygoden weithiau, Gol.] Y Naturiaethwr 13

16 Awst 2003: Gwalchwyfyn y benglog, lindys, yn Henfaes Abergwyngregyn, adroddiad yn y D Telegraph ac ar newyddion y teledu. Straeon blaenorol yr ôl-rifynnau:

<http://www.llennatur.com/files/u1/Cylchgrawn23.pdf> (tudalen 3)

<http://www.llennatur.com/files/u1/Cylchgrawn7.pdf> (tudalen 2)

Cafodd rhai eu gweld yn y blyddoedd hyn: 1825, 1954, 1970, 1971, (1973?) 1976, 1983, 1984, 1987, 1998, 2003. Ewch l'r Tywyddiadur i weld mwy.



Gweithdy Newid Hinsawdd Gregynog

Mae Prosiect Llên Natur wedi llwyddo i dynnu sylw'r arbenigwyr hinsawdd sydd yn gweithio ym mhrifysgolion Cymru. Trefnir gweithdy ym Mhlas Gregynog ym mis Ebrill i rai sydd â diddordeb arbennig ym maes hinsoddeg gan C3W (Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru) ar y cyd â Llên Natur i drafod sawl agwedd ar newid hinsawdd, yn bennaf trwy gyfrwng ffynonellau Cymraeg a Chymreig. Dyma rai o'r cyflwyniadau: *The potential of oak tree-rings to reconstruct past climate in temperate areas* (Giles Young, Adran Ddaeryddiaeth, Prifysgol Abertawe), *Delweddu llifogydd hanesyddol – integreiddio data diwyllianol a gwyddonol* (Hywel Griffiths, Adran Ddaeryddiaeth a Gwyddorau Daearyddiaeth, Prifysgol Aberystwyth), *Sailors and storms: how Royal Navy ship's logbooks inform climate change* (Dennis Wheeler o Brifysgol Sunderland)...a llawer mwy. Gwylwch wefan a Bwletin Llên Natur i wybod beth sydd gan bawb i'w ddweud.